**Y PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD EDC-04-99(P.1)**

**Dyddiad:** 26 Gorffennaf 1999

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1. Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Teitl: GWEITHREDU RHAGLENNI CRONFEYDD STRWYTHUROL EWROPEAIDD NEWYDD**

## Y MATER

1. Argymhellion dros dro y Tasglu Ewropeaidd ar y trefniadau ar gyfer gosod rhaglenni Cronfeydd Strwythurol ar waith yng Nghymru yn y cyfnod 2000 – 2006.

## ARGYMHELLION Y TASGLU EWROPEAIDD

2. Nid yw'r tasglu Ewropeaidd wedi cytuno eto ar ei argymhellion manwl ynghylch y trefniadau y dylid eu sefydlu ar gyfer rheoli'r rhaglenni newydd, ond mae wedi sicrhau cytundeb bras ar yr egwyddorion sydd i'w dilyn.

3. Yn ei gynigion ar gyfer Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol , a gyhoeddwyd i'w hystyried gan y cyhoedd ar 14 Gorffennaf, nodir yr egwyddorion canlynol i'w hystyried:

- yn y rhaglenni newydd, ni ddylid parhau â'r system bresennol o gynnal rowndiau o gynigion ar sail nifer fawr o geisiadau am brojectau unigol;
- yn ei lle, dylid defnyddio dull mwy strategol fydd yn cynnwys 'pecynnau' neu strategaethau cenedlaethol a lleol;
- byddai'r strategaethau 'cenedlaethol', yn arferol, yn cynnwys pecynnau yn seiliedig ar thema, e.e. cefnogaeth ar gyfer marchnata twristiaeth, a fyddai'n cael eu hasesu gan y bartneriaeth ac y byddid yn cytuno ar yr ariannu am gyfnod penodol o flynyddoedd. Yn arferol, byddai'r noddwyr yn gyrff a fyddai'n gweithredu'n genedlaethol yng Nghymru, e. e. Bwrdd Croeso Cymru. Byddai angen i gynigion am strategaethau cenedlaethol ddangos cysylltiadau â chamau gweithredu ar lefel is-ranbarthol neu leol;
- gallai'r pecynnau lleol ganolbwyntio ar themâu neu ardaloedd daearyddol is-ranbarthol a gellid eu paratoi gan grwpiau partneriaeth lleol. Hefyd, gellid caniatáu cyllid ar gyfer

cyflwyno strategaethau dros gyfnod o flynyddoedd;

- byddai'n hanfodol sefydlu Ysgrifenyddiaeth ganolog gref ar gyfer y gwaith o fonitro a gweinyddu'r rhaglenni'n fanwl, gan wasanaethu Pwyllgor Monitro. Byddai gan yr Ysgrifenyddiaeth swyddogaeth flaenweithgar, gan gynnwys gweithio gyda phartneriaid i drafod a pharatoi cynigion ar gyfer strategaethau.

**CEFNDIR**

4 Mae adroddiad Ysgrifenyddiaeth y Tasglu Ewropeaidd, a ystyriwyd gan y tasglu wrth ffurfio'i argymhellion ynghlwm wrth y papur hwn ar ffurf atodiad. Mae'r adroddiad yn nodi cefndir argymhellion y Tasglu ac mae'n amlinellu'r materion technegol a pholisi na phenderfynwyd arnynt hyd yn hyn.

**ARGYMHELLION TERFYNOL**

5 Mae llawer o waith manwl i'w wneud eto er mwyn troi'r cynigion bras hyn yn drefniadau y gellir eu gweithredu. Yn yr Hydref, bydd y Tasglu Ewropeaidd yn cyflwyno papur i'r Cynulliad yn nodi 'r cynigion a ystyriwyd ganddo ar gyfer gweinyddu Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru.

**Gorffennaf 1999 Adran Materion Ewropeaidd**

**EDC-04-99(P.1) ATODIAD1**

**TREFNIADAU GWEITHREDU**

**ADRODDIAD YSGRIFENYDDIAETH Y GWEITHLU**

**Cefndir**

1. Yn sgil y newidiadau mawr fydd yn digwydd ar ôl 1999, bydd cyfle ac angen gwirioneddol i adolygu'r modd y mae'r Cronfeydd Strwythurol wedi'u gweithredu hyd yn hyn, ac i osod strwythur ar waith a fydd yn diwallu anghenion Cymru yn y Mileniwm newydd.
2. Mae'r papur hwn yn datblygu'r materion a godwyd ym mhapur mis Mawrth i'r Tasglu ac yn cyflwyno strwythur posibl ynghyd â chyfres o faterion i'w hystyried ymhellach.

### Y sefyllfa ar hyn o bryd

3. Sefydlwyd yr Ysgrifenyddiaeth bresennol, WEPE Cyf, ym 1997 i reoli rhaglenni UE ledled Cymru. Fe esblygodd yn gyfan gwbl o weinyddiaeth y Swyddfa Gymreig, gan adlewyrchu safbwyntiau a dymuniadau partneriaeth ranbarthol ar gyfer trefn reoli Cronfeydd Strwythurol a fyddai'n fwy ymatebol ac atebol.
4. Mae dull yr Ysgrifenyddiaeth Annibynnol wedi'i sefydlu ers peth amser yn yr Alban, ac yr oedd y Comisiwn Ewropeaidd wedi argymell yn gadarn bod Cymru yn ei fabwysiadu. Croesawyd hyn, a'i ategu gan bob partner.
5. Ystyrir mai prif gryfderau'r system gymhleth a pherthnasoedd aml-atebol WEPE yw:

- Mae'n annibynnol ar unrhyw fuddiannau partneriaid/sectorau
- Mae'n eiddo i'r bartneriaeth ac yn atebol iddi
- Mae'n cynnig mynediad agored i bob ymgeisydd
- Mae ganddi bresenoldeb daearyddol ledled Cymru
- Mae ei gweithdrefnau ar gyfer dewis projectau yn hollol eglur
- Mae'r bartneriaeth yn cael cymryd rhan lawn yn y broses o wneud penderfyniadau
- Mae ganddi swmp o brofiad ac arbenigedd sydd ar gynnydd.

1. Er hynny, mae yna rai gwendidau:

- System ymatebol yw hi yn ei hanfod
- Mae ei phrosesau cystadleuol, sy'n seiliedig ar brojectau, yn arwain at ledaenu'r arian yn denau
- Mae gwerthuso ac asesu ceisiadau yn llyncu amser ac, yn y pen draw, yn rhannol wastraffus.

### Yr angen am newid

7. Mae graddfa rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol sydd i'w gosod ar waith yng Nghymru yn ystod y saith mlynedd nesaf llawer yn fwy na'r hyn a reolwyd yn ystod y cyfnod rhaglennu presennol.

8. Beth bynnag fo'r newidiadau eraill y gall fod eu hangen yn ystod y broses weithredu, bydd maint y swm o adnoddau sydd i'w defnyddio a'r her enfawr i gynyddu'r twf economaidd yn galw am ddull soffistigedig.
9. Mae Gweithrediaeth bresennol y Rhaglen wedi prosesu ychydig dros 3,400 o geisiadau yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Cymeradwywyd bron i 60% ohonynt.
10. Bydd maint SPD Amcan 1 yn her fawr ond, fel gyda'r Amcan 2 a Rhaglenni eraill ac ati, bydd hefyd yn cynnig cyfle i sicrhau gwell cymhareb ceisiadau/cymeradwyo. Nid yw'r gymhareb bresennol yn feirniadaeth ar y weithdrefn asesu nac ar y safonau angenrheidiol o safbwynt y noddwyr. Yn hytrach, mae'n adlewyrchu'r ffaith y byddai

treulio mwy o amser yn datblygu projectau yn arwain at well ceisiadau ac, felly, well cyfraddau cymeradwyo.

**Anghenion Sylfaenol**

11. Yn sgil cyflwyno trefn newydd ar gyfer Cronfeydd Strwythurol ar ôl 1999, yn enwedig o ystyried maint yr adnoddau Amcan 1, dylai unrhyw strwythur weithredu newydd feddu ar y nodweddion canlynol:

i. **Gwerth effeithiol am arian**

Mae pob system reoli yn costio, ac mae’n hanfodol bod y systemau ar gyfer y dyfodol yn rhoi gwerth da am arian a’u bod yn cael eu rhedeg ar sail cyn rhated ag sy’n rhesymol bosibl;

ii. **Gwneud penderfyniadau mewn modd eglur**

Elfen hanfodol o reoli Cronfeydd Strwythurol yw sicrhau bod y penderfyniadau yn rhai eglur, teg a gwrthrychol.

iii. **Perchnogaeth**

Yr hyn oedd wrth wraidd yr Ysgrifenyddiaeth Annibynnol bresennol oedd y nod o sicrhau bod partneriaeth Cymru yn ei chyfanrwydd yn berchen ar reolaeth gweinyddiaeth y Cronfeydd.

Mae perchnogaeth, ymroddiad llwyr y staff i’r swyddogaeth, ac osgoi unrhyw ddylanwadau, yn parhau i ffurfio’r prif nodweddion ar gyfer rheoli yn y dyfodol a systemau. Bydd angen i anghenion y bartneriaeth gyfan gael eu diwallu gan y trefniadau at y dyfodol;

iv. **Gwneud penderfyniadau yn gyflym**

Mae angen gwneud penderfyniadau mewn cyfnod rhesymol o amser, sy’n cyfateb ar y naill law anghenion y noddwyr am asesiad cyflym ac, ar y llaw arall, yr angen am ddiwydrwydd priodol o ran termau ariannol, cymhwysedd ac eglurder.

v. **Atebolrwydd**

Dylai’r broses weithredu fod yn atebol i’r Cynulliad, y pwyllgorau Monitro, y Comisiwn Ewropeaidd a’r noddwyr;

vi. **Rheolaeth Ariannol, Monitro a Gwerthuso**

Dylai'r systemau rheoli alluogi i'r broses weithredu fod yn destun rheolaeth ariannol gadarn.

Mae angen i'r system ddarparu deunyddiau cadarn ar gyfer monitro a gwerthuso'n effeithiol. Mae pwysigrwydd y swyddogaeth hon yn cynyddu a dylid sicrhau bod ei statws yn codi'n unol â hynny.

**vii Hygyrchedd**

Mae'n hanfodol sicrhau bod y broses weithredu yn hygyrch i bob sector a phob rhan o Gymru. Yn hanesyddol, mae amrywiol sefydliadau bach, a'r sector preifat yn enwedig, wedi profi rhai anawsterau o ran cael gafael ar y cronfeydd. Dylai'r broses newydd fod yn flaenweithgar wrth fynd i'r afael â'r anawsterau hyn;

**viii Ei gosod yn ei lle**

Dylai'r system reoli fod yn ei lle mewn digon o bryd i ddechrau gosod yr SPDs ar waith cyn gynted ag y cânt eu cymeradwyo.

12. Bydd angen i'r strwythur gweithredu newydd, a chanddo'r holl nodweddion a nodir ym Mharagraff 7, gynnwys cydbwysedd rhwng rheolaeth gadarn ar gyllid a chymhwysedd a chynyddu perchnogaeth a gwneud penderfyniadau cyflym.
13. Yn ogystal â'r nodweddion a nodir, mae cost yn holl bwysig o ran ffurfio'r strwythur gweithredu, yn enwedig gan fod pryderon wedi'u mynegi ynghylch parhau â'r Cymorth Technegol tuag at wariant ar weinyddu'r Rhaglen.

**Strwythur Posibl**

14. Yn yr un modd ag yn achos rheoli'r Cronfeydd Strwythurol presennol, bydd yna ystod o fuddiannau a chyfrifoldebau.
15. Y ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni dyheadau partneriaeth Cymru fyddai drwy sefydlu strwythur sydd yn cael ei rheoli'n gryf o'r canol ond sydd hefyd yn cael ei gosod ar waith ar sail leol.
16. Mae angen nifer o nodweddion ar y strwythur y bwriedir ei fabwysiadu:

- sail ar gyfer chwilio am gefnogaeth Cronfeydd Strwythurol a'i dyfarnu, ynghyd â gwneud

trefniadau ar gyfer gwerthuso ac asesu
- trefniadau ar gyfer rheoli, monitro a gwerthuso
- dulliau o roi cymorth ariannol

**Sail ar gyfer Ceisio am Gefnogaeth Cronfeydd Strwythuro a'i Dyfarnu**

17. a gefnogaeth gyffredinol bron i'r syniad o symud oddi wrth y system bresennol o geisiadau ar ffurf projectau unigol i ddull strategol ar ffurf pecynnau. Mae swm yr adnoddau sydd ar gael a graddfa'r her sy'n wynebu Cymru yn galw am safbwynt strategol, os bwriedir cyflawni nodau'r wlad.
18. Mae'r geiriau 'strategol' a 'pecynnau' yn gallu golygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Er hynny, dull a fydd yn mabwysiadu ffordd strategol wirioneddol o fynd ymlaen fydd fwyaf effeithiol i Gymru.
19. Yng nghyd-destun y Cronfeydd Strwythurol, ystyr pecyn yw grwp o brojectau sydd, gyda'i gilydd, yn rhoi ymateb cydlynol ac integredig i broblem/angen penodedig ac yn cyflwyno canlyniadau penodol.
20. Gellid trefnu'r rhain fel a ganlyn:

- Pecynnau o brojectau ar sail 'themâu' cenedlaethol a'r rheini wedi'u trefnu gan un corff (cenedlaethol yn ôl pob tebyg)
- Pecynnau o brojectau'n canolbwyntio ar 'themâu' is-ranbarthol a/neu ardaloedd daearyddol.

**Pecynnau Cenedlaethol**

21. Gallai cyrff, cenedlaethol yn ôl pob tebyg e.e. WDA, Bwrdd Croeso Cymru ac ati, baratoi pecynnau ar ffurf 'thema' ar gyfer eu gweithredoedd ar draws Cymru gan nodi pa weithgareddau penodol a fyddai'n gweithredu mewn ardaloedd penodol e.e. camau gweithredu yng Ngorllewin Cymru, y Cymoedd ac ati.
22. Un ffactor pwysig ar gyfer y pecynnau cenedlaethol hyn fyddai eu cysylltiadau â chamau lleol, a byddai'n bwysig i'r Pecynnau cenedlaethol hyn feddu ar gynrychiolwyr arbenigol o'r partneriaethau er mwyn sicrhau bod y cysylltiadau perthnasol yn eu lle.
23. Byddai hyn yn adeiladu ar arferion presennol lle mae trefniadau partneriaeth eisoes yn eu lle, e.e. y Cynllun Gweithredu Entrepreuneriaeth, y Bartneriaeth Amaeth-Bwyd, ac ati.
24. Byddai gan bob 'pecyn thema' gyd-destun strategol ynghyd â nifer penodol o brojectau i'w gweithredu dros gyfnod o 3 – 7 blynedd. Byddai pob un yn cael ei asesu ac yna byddai dull rhaglen dreigl yn cael ei fabwysiadu. Byddai'r cynnwys strategol a'r projectau Blwyddyn 1 yn cael eu cymeradwyo gyda'i gilydd ynghyd â ffigurau dangosol rhagdybiedig ar gyfer cynllunio ariannol at y blynyddoedd sydd i ddod.
25. Yna, byddai adroddiadau blynyddol ar gynnydd yn erbyn targedau penodedig yn y cyd-destun strategol yn cael eu defnyddio i ystyried cymeradwyo pellach ar gyfer Blynyddoedd 2, 3 a thu hwnt ar sail dreigl.

## Pecynnau Lleol

26. Er mwyn cynyddu'r integreiddio rhwng gwahanol gamau, gan ymateb i amgylchiadau lleol a sicrhau gwell perchnogaeth, dylid ystyried cyfres o becynnau lleol ar gyfer themâu is-ranbarthol neu ardaloedd daearyddol penodol er mwyn ategu'r 'pecynnau thema' cenedlaethol.
27. Mae yna lawer o dystiolaeth bod adfywio a ysgogir yn lleol yn tra llwyddiannus. Mae'n hanfodol bod y pecynnau hyn, a'u cyd-destun strategol, yn cael eu paratoi gan grwpiau partneriaeth o bob sector. Unwaith y bydd y rhain wedi'u nodi, bydd y broses ar gyfer gweithredu yn dilyn y dull rhaglen dreigl a fabwysiedir ar gyfer y pecynnau Cenedlaethol.

### Pwerau Datganoledig

28. Mae angen i'r holl wariant yn y pecynnau ar brojectau cydrannol gyflawni'r meini prawf ar gyfer cymhwyso a'r meini prawf a bennwyd ar gyfer canlyniadau.

### Projectau Eraill

29. Rhaid bod yna le o fewn unrhyw system i ddarparu ar gyfer projectau nad ydynt, am amrywiol resymau, yn gallu ffurfio rhan o becyn yn hawdd iawn, e.e. projectau mawr arloesol, projectau peilot blaengar ar gyfer cymunedau, ac ati. Dylai fod modd i'r rhain, efallai drwy gystadleuaeth flynyddol, gynnig am gyllid drwy'r Ysgrifenyddiaeth Genedlaethol/ Pwyllgorau Monitro.
30. Mae yna nifer o faterion allweddol i'w hystyried ar gyfer dull y pecynnau:

- *bydd angen i'r Tasglu ystyried, mewn ymgynghoriad â'r bartneriaeth ranbarthol, pa 'becynnau thema' a draddodir ar sail genedlaethol a chan bwy;*
- *bydd angen i bob ardal SPD ystyried pa 'becynnau thema' a/neu becynnau daearyddol a gaiff eu trin ar lefel is—ranbarthol neu ardal, a chan bwy;*
- *mae angen sefydlu trefn i bennu sut ac ar ba sail y dyrennir y Cyllid i bob pecyn cenedlaethol/is-ranbarthol/lleol;*
- *mae angen sefydlu meini prawf i nodi i ba raddau ac ym mha amgylchiadau y gellir datganoli pwerau dirprwyedig i reolwyr pecynnau cenedlaethol/is-ranbarthol/lleol. Rhaid i'r cyrff hyn ddefnyddio dull a seilir ar bartneriaeth. Rhaid iddynt osgoi bod yn blwyfol a dylent osgoi ffafriaeth. Y Pwyllgor Monitro perthnasol fyddai'n cytuno arnynt;*
- *os bydd statws rheolwr pecyn datganoledig yn mynd rhagddo, bydd angen nodi anghenion o safbwynt staff, systemau TG ac ati, a hefyd ffynonellau o gymorth ariannol y mae'n sicr y bydd eu hangen ar gyfer gweinyddu'r pecynnau.*

## Y Trefniadau ar gyfer Rheoli, Monitro a Gwerthuso

## Y Cynulliad

31. Newydd ddechrau esblygu y mae rôl y Cynulliad, ond mae'n sicr y bydd ganddo ddiddordeb amlwg yn y defnydd o gyllid Ewropeaidd sylweddol a'r canlyniadau neu'r diffyg canlyniadau. Ni wyddys eto beth fydd rôl Pwyllgorau Rhanbarth y Cynulliad, ond hwyrach y gallant ddod yn rhan o hyn wrth i'r Cynulliad fwrw at ei waith o ddifrif.

## Y Pwyllgorau Monitro

32 Mae'n ofynnol i gael Pwyllgor Monitro ar gyfer pob SPD, yn ogystal ag un hefyd, yn ôl pob tebyg, ar gyfer y Rhaglen Weithredol Amcan 3, y Mentrau Cymunedol a'r Rhaglen Datblygu Gweledig. Yn dilyn 1999 dylid mynd ati o ddifri i hybu'r hen farn bod angen i'r Pwyllgorau ganolbwyntio ar fonitro perfformiad a phennu newidiadau y gall fod eu hangen o ran strategaethau.

*Bydd angen ystyried rolau penodol y Cynulliad, ei bwyllgorau a'r amrywiol Bwyllgorau Monitro mewn mwy o fanylder maes o law. Hwyrach y gellid ystyried y posibilrwydd o sicrhau cynrychiolaeth y Cynulliad ar y Pwyllgorau Monitro.*

## Yr Ysgrifenyddiaeth Reoli Genedlaethol

33. Ar hyn o bryd mae'r Ysgrifenyddiaeth Gronfeydd yn gwmni cyfyngedig trwy warant, gyda Bwrdd sy'n cynnwys cynrychiolwyr ei berchnogion (partneriaid rhanbarthol Cymru).

34. Mae ganddi berthynas hyd braich â'r Swyddfa Gymreig ond eto mae cyswllt hanfodol rhyngddynt, ac mae cyfran o swyddogaethau'r Ysgrifenyddiaeth yn rhwymedigaethau anghyfnewidiadwy ar yr Aelod-Wladwriaeth.

35. Bydd ei swyddogaethau cyfredol megis gwasanaethu anghenion y Pwyllgorau Monitro, darparu systemau rheoli gwybodaeth effeithiol, cyhoeddusrwydd, rheolaeth ariannol, cyngor ar gymhwysedd, prosesu hawliadau am daliadau a chau'r Rhaglenni cyfredol yn parhau yn y dyfodol.

36. O dan y strwythur newydd arfaethedig byddai'r Ysgrifenyddiaeth hefyd yn gyfrifol am:

- asesu a gwerthuso pecynnau sydd am dderbyn cymorth gan y Cronfeydd (efallai y bydd angen defnyddio ymgynghorwyr arbenigol i roi cymorth â rhai gwerthusiadau);
- argymell pecynnau addas i'r Pwyllgorau Monitro perthnasol eu cymeradwyo;
- cymeradwyo projectau unigol oddi mewn i becynnau a gymeradwywyd eisoes nad oes

ganddynt bwerau wedi'u datganoli;

- darparu cefnogaeth flaenweithgar i noddwyr i'w helpu i ddatblygu pecynnau a phrojectau o ansawdd uchel. Bydd y swyddogaeth hon fel *animateur* yn arbennig o bwysig os yw'r sector preifat am gymryd rhan effeithiol, a gellid ei gwella drwy ddefnyddio cymorth technegol i adeiladu ar y gallu oddi mewn i'r sectorau i ddefnyddio'r Cronfeydd Strwythurol.

37. Mae profiad wedi dangos bod y rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yn weithredoedd arbenigol sydd yn galw am staff profiadol sydd wedi ymroi 100% i'r tasgau angenrheidiol ar sail barhaus a hir-dymor.

38. Gyda'r newid arfaethedig yn swyddogaethau'r Ysgrifenyddiaeth i agwedd wedi'i chanoli fwy ar bolisi, sy'n fwy cydlynol a blaen-weithgar, bydd gan y Cynulliad rôl amlycach yn rheolaeth y Rhaglenni na sydd gan y Swyddfa Gymreig ar hyn o bryd.

39. Mae'r amodau hyn yn arwain at yr angen i sefydlu Ysgrifenyddiaeth Genedlaethol yn cynnwys staff ymroddedig sy'n amlwg yn atebol ac yn hygyrch i'r Cynulliad, y Pwyllgorau Monitro a'r holl bartneriaid.

40. Bydd angen sefydlu "Bwrdd yr Ysgrifenyddiaeth" sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Bwyllgorau Monitro Cymru i gadw gorolwg ar rôl yr Ysgrifenyddiaeth.

> *Efallai na fydd statws presennol "cwmni cyfyngedig trwy warant" yr Ysgrifenyddiaeth yn briodol bellach er mwyn cyflawni anghenion perchnogaeth a rheolaeth, a dylid rhoi ystyriaeth i'r statws mwyaf priodol ar gyfer y dyfodol.*

41 Mae llwyddiant neu fethiant unrhyw system reoli yn dibynnu ar ansawdd y staff ac ar adnoddau digonol, ac yn ystod y ddwy flynedd diwethaf mae WEPE Cyf. wedi adeiladu corff o brofiad ac arbenigedd, ynghyd â pheth wmbreth o systemau rheoli gwybodaeth.

42. Wrth i'r gyfundrefn newydd gael ei sefydlu, y nodwedd allweddol yw y bydd yn cael ei rhoi ar waith o'r diwrnod cyntaf un, a hynny am y gost leiaf bosibl. Felly mae'n hanfodol defnyddio'r sgiliau a'r profiad sydd eisoes yn bodoli yn effeithiol os yw rheolaeth y Cronfeydd i ddechrau'n brydlon.

*Bydd angen i'r Cynulliad ystyried ariannu'r trefniadau rheoli newydd yn gynnar, gan ei bod yn annhebygol y bydd y cymysgedd presennol o gymorth technegol a ffioedd noddwyr ar gael ar ôl 1999.*

**Gwerthuso a Monitro**

43. Dylid rhoi ystyriaeth i sefydlu Uned lled-annibynnol oddi mewn i'r Ysgrifenyddiaeth i fod yn gyfrifol am fonitro, gwerthuso a pharatoi adroddiadau blynyddol.

**Natur y Cymorth Ariannol**

44. Er mai cymorth grant yw'r ffynhonnell amlwg o gymorth, mae offerynnau ariannol eraill y gellid eu hystyried, ee. cynorthwyon gweithredu, cronfeydd benthyciadau, cronfeydd wedi'u cyfatebu ymlaen llaw (mae'n ymddangos ei bod yn werth ystyried y fenter Cronfa Allweddol), etc ac mae'r dogfennau ar ffurf pecynnau yn darparu cyfleodd i ddatblygu'r rhain.

**Casgliadau**

45. Nid yw'r symudiad oddi wrth y broses gynnig gystadleuol at ddull pecyn strategol yn syml o bell ffordd, ond fe allai gynnig ffordd effeithiol o wneud y defnydd mwyaf posibl o'r Cronfeydd Strwythurol sylweddol ledled Cymru.

46. Mae'r papur hwn yn cynnig agwedd sy'n hanfodol wahanol ac mae'n codi nifer o gwestiynau. Nid oes amheuaeth y bydd cryn anhawster yngln â'r manylion, ond os gellir cytuno ar yr egwyddorion bras gellir bwrw ymlaen â gwaith pellach tra bo ymgynghoriad cyhoeddus yn mynd yn ei flaen. Erbyn i'r dogfennau gael eu diwygio a'u cyflwyno i'r Cynulliad, bydd rhaid i'r system reoli arfaethedig fod yn gadarnach a dylai'r camau cyntaf fod yn barod i'w gweithredu.

**TASGLU YSGRIFENYDDIAETH EWROP**

**Y PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD EDC-04-99(P.1)**

**Dyddiad:** 26 Gorffennaf 1999

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1. Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Teitl: GWEITHREDU RHAGLENNI CRONFEYDD STRWYTHUROL EWROPEAIDD NEWYDD**

**Y MATER**

1. Argymhellion dros dro y Tasglu Ewropeaidd ar y trefniadau ar gyfer gosod rhaglenni Cronfeydd Strwythurol ar waith yng Nghymru yn y cyfnod 2000 – 2006.

**ARGYMHELLION Y TASGLU EWROPEAIDD**

2. Nid yw’r tasglu Ewropeaidd wedi cytuno eto ar ei argymhellion manwl ynghylch y trefniadau y dylid eu sefydlu ar gyfer rheoli’r rhaglenni newydd, ond mae wedi sicrhau cytundeb bras ar yr egwyddorion sydd i’w dilyn.

3. Yn ei gynigion ar gyfer Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol , a gyhoeddwyd i’w hystyried gan y cyhoedd ar 14 Gorffennaf, nodir yr egwyddorion canlynol i’w hystyried:

- yn y rhaglenni newydd, ni ddylid parhau â’r system bresennol o gynnal rowndiau o gynigion ar sail nifer fawr o geisiadau am brojectau unigol;
- yn ei lle, dylid defnyddio dull mwy strategol fydd yn cynnwys ‘pecynnau’ neu strategaethau cenedlaethol a lleol;
- byddai’r strategaethau ‘cenedlaethol’, yn arferol, yn cynnwys pecynnau yn seiliedig ar thema, e.e. cefnogaeth ar gyfer marchnata twristiaeth, a fyddai’n cael eu hasesu gan y bartneriaeth ac y byddid yn cytuno ar yr ariannu am gyfnod penodol o flynyddoedd. Yn

arferol, byddai'r noddwyr yn gyrff a fyddai'n gweithredu'n genedlaethol yng Nghymru, e. e. Bwrdd Croeso Cymru. Byddai angen i gynigion am strategaethau cenedlaethol ddangos cysylltiadau â chamau gweithredu ar lefel is-ranbarthol neu leol;

- gallai'r pecynnau lleol ganolbwyntio ar themâu neu ardaloedd daearyddol is-ranbarthol a gellid eu paratoi gan grwpiau partneriaeth lleol. Hefyd, gellid caniatáu cyllid ar gyfer cyflwyno strategaethau dros gyfnod o flynyddoedd;
- byddai'n hanfodol sefydlu Ysgrifenyddiaeth ganolog gref ar gyfer y gwaith o fonitro a gweinyddu'r rhaglenni'n fanwl, gan wasanaethu Pwyllgor Monitro. Byddai gan yr Ysgrifenyddiaeth swyddogaeth flaenweithgar, gan gynnwys gweithio gyda phartneriaid i drafod a pharatoi cynigion ar gyfer strategaethau.

**CEFNDIR**

4 Mae adroddiad Ysgrifenyddiaeth y Tasglu Ewropeaidd, a ystyriwyd gan y tasglu wrth ffurfio'i argymhellion ynghlwm wrth y papur hwn ar ffurf atodiad. Mae'r adroddiad yn nodi cefndir argymhellion y Tasglu ac mae'n amlinellu'r materion technegol a pholisi na phenderfynwyd arnynt hyd yn hyn.

**ARGYMHELLION TERFYNOL**

5 Mae llawer o waith manwl i'w wneud eto er mwyn troi'r cynigion bras hyn yn drefniadau y gellir eu gweithredu. Yn yr Hydref, bydd y Tasglu Ewropeaidd yn cyflwyno papur i'r Cynulliad yn nodi 'r cynigion a ystyriwyd ganddo ar gyfer gweinyddu Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru.

**Gorffennaf 1999 Adran Materion Ewropeaidd**

**EDC-04-99(P.1) ATODIAD1**

**TREFNIADAU GWEITHREDU**

**ADRODDIAD YSGRIFENYDDIAETH Y GWEITHLU**

**Cefndir**

1. Yn sgil y newidiadau mawr fydd yn digwydd ar ôl 1999, bydd cyfle ac angen gwirioneddol i adolygu'r modd y mae'r Cronfeydd Strwythurol wedi'u gweithredu hyd yn hyn, ac i osod strwythur ar waith a fydd yn diwallu anghenion Cymru yn y Mileniwm

newydd.

2. Mae'r papur hwn yn datblygu'r materion a godwyd ym mhapur mis Mawrth i'r Tasglu ac yn cyflwyno strwythur posibl ynghyd â chyfres o faterion i'w hystyried ymhellach.

**Y sefyllfa ar hyn o bryd**

3. Sefydlwyd yr Ysgrifenyddiaeth bresennol, WEPE Cyf, ym 1997 i reoli rhaglenni UE ledled Cymru. Fe esblygodd yn gyfan gwbl o weinyddiaeth y Swyddfa Gymreig, gan adlewyrchu safbwyntiau a dymuniadau partneriaeth ranbarthol ar gyfer trefn reoli Cronfeydd Strwythurol a fyddai'n fwy ymatebol ac atebol.
4. Mae dull yr Ysgrifenyddiaeth Annibynnol wedi'i sefydlu ers peth amser yn yr Alban, ac yr oedd y Comisiwn Ewropeaidd wedi argymell yn gadarn bod Cymru yn ei fabwysiadu. Croesawyd hyn, a'i ategu gan bob partner.
5. Ystyrir mai prif gryfderau'r system gymhleth a pherthnasoedd aml-atebol WEPE yw:

- Mae'n annibynnol ar unrhyw fuddiannau partneriaid/sectorau
- Mae'n eiddo i'r bartneriaeth ac yn atebol iddi
- Mae'n cynnig mynediad agored i bob ymgeisydd
- Mae ganddi bresenoldeb daearyddol ledled Cymru
- Mae ei gweithdrefnau ar gyfer dewis projectau yn hollol eglur
- Mae'r bartneriaeth yn cael cymryd rhan lawn yn y broses o wneud penderfyniadau
- Mae ganddi swmp o brofiad ac arbenigedd sydd ar gynnydd.

1. Er hynny, mae yna rai gwendidau:

- System ymatebol yw hi yn ei hanfod
- Mae ei phrosesau cystadleuol, sy'n seiliedig ar brojectau, yn arwain at ledaenu'r arian yn denau
- Mae gwerthuso ac asesu ceisiadau yn llyncu amser ac, yn y pen draw, yn rhannol wastraffus.

**Yr angen am newid**

7. Mae graddfa rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol sydd i'w gosod ar waith yng Nghymru yn ystod y saith mlynedd nesaf llawer yn fwy na'r hyn a reolwyd yn ystod y cyfnod rhaglennu presennol.

8. Beth bynnag fo'r newidiadau eraill y gall fod eu hangen yn ystod y broses weithredu, bydd maint y swm o adnoddau sydd i'w defnyddio a'r her enfawr i gynyddu'r twf economaidd yn galw am ddull soffistigedig.
9. Mae Gweithrediaeth bresennol y Rhaglen wedi prosesu ychydig dros 3,400 o geisiadau yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Cymeradwywyd bron i 60% ohonynt.

10. Bydd maint SPD Amcan 1 yn her fawr ond, fel gyda'r Amcan 2 a Rhaglenni eraill ac ati, bydd hefyd yn cynnig cyfle i sicrhau gwell cymhareb ceisiadau/cymeradwyo. Nid yw'r gymhareb bresennol yn feirniadaeth ar y weithdrefn asesu nac ar y safonau angenrheidiol o safbwynt y noddwyr. Yn hytrach, mae'n adlewyrchu'r ffaith y byddai treulio mwy o amser yn datblygu projectau yn arwain at well ceisiadau ac, felly, well cyfraddau cymeradwyo.

**Anghenion Sylfaenol**

11. Yn sgil cyflwyno trefn newydd ar gyfer Cronfeydd Strwythurol ar ôl 1999, yn enwedig o ystyried maint yr adnoddau Amcan 1, dylai unrhyw strwythur weithredu newydd feddu ar y nodweddion canlynol:

i. **Gwerth effeithiol am arian**

Mae pob system reoli yn costio, ac mae'n hanfodol bod y systemau ar gyfer y dyfodol yn rhoi gwerth da am arian a'u bod yn cael eu rhedeg ar sail cyn rhated ag sy'n rhesymol bosibl;

ii. **Gwneud penderfyniadau mewn modd eglur**

Elfen hanfodol o reoli Cronfeydd Strwythurol yw sicrhau bod y penderfyniadau yn rhai eglur, teg a gwrthrychol.

iii. **Perchnogaeth**

Yr hyn oedd wrth wraidd yr Ysgrifenyddiaeth Annibynnol bresennol oedd y nod o sicrhau bod partneriaeth Cymru yn ei chyfanrwydd yn berchen ar reolaeth gweinyddiaeth y Cronfeydd.

Mae perchnogaeth, ymroddiad llwyr y staff i'r swyddogaeth, ac osgoi unrhyw ddylanwadau, yn parhau i ffurfio'r prif nodweddion ar gyfer rheoli yn y dyfodol a systemau. Bydd angen i anghenion y bartneriaeth gyfan gael eu diwallu gan y trefniadau at y dyfodol;

iv. **Gwneud penderfyniadau yn gyflym**

Mae angen gwneud penderfyniadau mewn cyfnod rhesymol o amser, sy'n cyfateb ar y naill law anghenion y noddwyr am asesiad cyflym ac, ar y llaw arall, yr angen am ddiwydrwydd priodol o ran termau ariannol, cymhwysedd ac eglurder.

v. **Atebolrwydd**

Dylai'r broses weithredu fod yn atebol i'r Cynulliad, y pwyllgorau Monitro, y Comisiwn Ewropeaidd a'r noddwyr;

vi. **Rheolaeth Ariannol, Monitro a Gwerthuso**

Dylai'r systemau rheoli alluogi i'r broses weithredu fod yn destun rheolaeth ariannol gadarn.

Mae angen i'r system ddarparu deunyddiau cadarn ar gyfer monitro a gwerthuso'n effeithiol. Mae pwysigrwydd y swyddogaeth hon yn cynyddu a dylid sicrhau bod ei statws yn codi'n unol â hynny.

**vii Hygyrchedd**

Mae'n hanfodol sicrhau bod y broses weithredu yn hygyrch i bob sector a phob rhan o Gymru. Yn hanesyddol, mae amrywiol sefydliadau bach, a'r sector preifat yn enwedig, wedi profi rhai anawsterau o ran cael gafael ar y cronfeydd. Dylai'r broses newydd fod yn flaenweithgar wrth fynd i'r afael â'r anawsterau hyn;

**viii Ei gosod yn ei lle**

Dylai'r system reoli fod yn ei lle mewn digon o bryd i ddechrau gosod yr SPDs ar waith cyn gynted ag y cânt eu cymeradwyo.

12. Bydd angen i'r strwythur gweithredu newydd, a chanddo'r holl nodweddion a nodir ym Mharagraff 7, gynnwys cydbwysedd rhwng rheolaeth gadarn ar gyllid a chymhwysedd a chynyddu perchnogaeth a gwneud penderfyniadau cyflym.
13. Yn ogystal â'r nodweddion a nodir, mae cost yn holl bwysig o ran ffurfio'r strwythur gweithredu, yn enwedig gan fod pryderon wedi'u mynegi ynghylch parhau â'r Cymorth Technegol tuag at wariant ar weinyddu'r Rhaglen.

**Strwythur Posibl**

14. Yn yr un modd ag yn achos rheoli'r Cronfeydd Strwythurol presennol, bydd yna ystod o fuddiannau a chyfrifoldebau.
15. Y ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni dyheadau partneriaeth Cymru fyddai drwy sefydlu strwythur sydd yn cael ei rheoli'n gryf o'r canol ond sydd hefyd yn cael ei gosod ar waith

ar sail leol.

16. Mae angen nifer o nodweddion ar y strwythur y bwriedir ei fabwysiadu:

- sail ar gyfer chwilio am gefnogaeth Cronfeydd Strwythurol a'i dyfarnu, ynghyd â gwneud trefniadau ar gyfer gwerthuso ac asesu
- trefniadau ar gyfer rheoli, monitro a gwerthuso
- dulliau o roi cymorth ariannol

**Sail ar gyfer Ceisio am Gefnogaeth Cronfeydd Strwythuro a'i Dyfarnu**

17. a gefnogaeth gyffredinol bron i'r syniad o symud oddi wrth y system bresennol o geisiadau ar ffurf projectau unigol i ddull strategol ar ffurf pecynnau. Mae swm yr adnoddau sydd ar gael a graddfa'r her sy'n wynebu Cymru yn galw am safbwynt strategol, os bwriedir cyflawni nodau'r wlad.
18. Mae'r geiriau 'strategol' a 'pecynnau' yn gallu golygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Er hynny, dull a fydd yn mabwysiadu ffordd strategol wirioneddol o fynd ymlaen fydd fwyaf effeithiol i Gymru.
19. Yng nghyd-destun y Cronfeydd Strwythurol, ystyr pecyn yw grwp o brojectau sydd, gyda'i gilydd, yn rhoi ymateb cydlynol ac integredig i broblem/angen penodedig ac yn cyflwyno canlyniadau penodol.
20. Gellid trefnu'r rhain fel a ganlyn:

- Pecynnau o brojectau ar sail 'themâu' cenedlaethol a'r rheini wedi'u trefnu gan un corff (cenedlaethol yn ôl pob tebyg)
- Pecynnau o brojectau'n canolbwyntio ar 'themâu' is-ranbarthol a/neu ardaloedd daearyddol.

**Pecynnau Cenedlaethol**

21. Gallai cyrff, cenedlaethol yn ôl pob tebyg e.e. WDA, Bwrdd Croeso Cymru ac ati, baratoi pecynnau ar ffurf 'thema' ar gyfer eu gweithredoedd ar draws Cymru gan nodi pa weithgareddau penodol a fyddai'n gweithredu mewn ardaloedd penodol e.e. camau gweithredu yng Ngorllewin Cymru, y Cymoedd ac ati.
22. Un ffactor pwysig ar gyfer y pecynnau cenedlaethol hyn fyddai eu cysylltiadau â chamau lleol, a byddai'n bwysig i'r Pecynnau cenedlaethol hyn feddu ar gynrychiolwyr arbenigol o'r partneriaethau er mwyn sicrhau bod y cysylltiadau perthnasol yn eu lle.
23. Byddai hyn yn adeiladu ar arferion presennol lle mae trefniadau partneriaeth eisoes yn eu lle, e.e. y Cynllun Gweithredu Entrepreuneriaeth, y Bartneriaeth Amaeth-Bwyd, ac ati.
24. Byddai gan bob 'pecyn thema' gyd-destun strategol ynghyd â nifer penodol o brojectau i'w gweithredu dros gyfnod o 3 – 7 blynedd. Byddai pob un yn cael ei asesu ac yna byddai dull rhaglen dreigl yn cael ei fabwysiadu. Byddai'r cynnwys strategol a'r projectau Blwyddyn 1 yn cael eu cymeradwyo gyda'i gilydd ynghyd â ffigurau dangosol

rhagdybiedig ar gyfer cynllunio ariannol at y blynyddoedd sydd i ddod.

25. Yna, byddai adroddiadau blynyddol ar gynnydd yn erbyn targedau penodedig yn y cyd-destun strategol yn cael eu defnyddio i ystyried cymeradwyo pellach ar gyfer Blynyddoedd 2, 3 a thu hwnt ar sail dreigl.

**Pecynnau Lleol**

26. Er mwyn cynyddu'r integreiddio rhwng gwahanol gamau, gan ymateb i amgylchiadau lleol a sicrhau gwell perchnogaeth, dylid ystyried cyfres o becynnau lleol ar gyfer themâu is-ranbarthol neu ardaloedd daearyddol penodol er mwyn ategu'r 'pecynnau thema' cenedlaethol.
27. Mae yna lawer o dystiolaeth bod adfywio a ysgogir yn lleol yn tra llwyddiannus. Mae'n hanfodol bod y pecynnau hyn, a'u cyd-destun strategol, yn cael eu paratoi gan grwpiau partneriaeth o bob sector. Unwaith y bydd y rhain wedi'u nodi, bydd y broses ar gyfer gweithredu yn dilyn y dull rhaglen dreigl a fabwysiedir ar gyfer y pecynnau Cenedlaethol.

**Pwerau Datganoledig**

28. Mae angen i'r holl wariant yn y pecynnau ar brojectau cydrannol gyflawni'r meini prawf ar gyfer cymhwyso a'r meini prawf a bennwyd ar gyfer canlyniadau.

**Projectau Eraill**

29. Rhaid bod yna le o fewn unrhyw system i ddarparu ar gyfer projectau nad ydynt, am amrywiol resymau, yn gallu ffurfio rhan o becyn yn hawdd iawn, e.e. projectau mawr arloesol, projectau peilot blaengar ar gyfer cymunedau, ac ati. Dylai fod modd i'r rhain, efallai drwy gystadleuaeth flynyddol, gynnig am gyllid drwy'r Ysgrifenyddiaeth Genedlaethol/ Pwyllgorau Monitro.
30. Mae yna nifer o faterion allweddol i'w hystyried ar gyfer dull y pecynnau:

- *bydd angen i'r Tasglu ystyried, mewn ymgynghoriad â'r bartneriaeth ranbarthol, pa 'becynnau thema' a draddodir ar sail genedlaethol a chan bwy;*
- *bydd angen i bob ardal SPD ystyried pa 'becynnau thema' a/neu becynnau daearyddol a gaiff eu trin ar lefel is—ranbarthol neu ardal, a chan bwy;*
- *mae angen sefydlu trefn i bennu sut ac ar ba sail y dyrennir y Cyllid i bob pecyn cenedlaethol/is-ranbarthol/lleol;*
- *mae angen sefydlu meini prawf i nodi i ba raddau ac ym mha amgylchiadau y gellir datganoli pwerau dirprwyedig i reolwyr pecynnau cenedlaethol/is-ranbarthol/lleol. Rhaid i'r cyrff hyn ddefnyddio dull a seilir ar bartneriaeth. Rhaid iddynt osgoi bod yn blwyfol a dylent osgoi ffafriaeth. Y Pwyllgor Monitro perthnasol fyddai'n cytuno arnynt;*

- *os bydd statws rheolwr pecyn datganoledig yn mynd rhagddo, bydd angen nodi anghenion o safbwynt staff, systemau TG ac ati, a hefyd ffynonellau o gymorth ariannol y mae'n sicr y bydd eu hangen ar gyfer gweinyddu'r pecynnau.*

**Y Trefniadau ar gyfer Rheoli, Monitro a Gwerthuso**

**Y Cynulliad**

31. Newydd ddechrau esblygu y mae rôl y Cynulliad, ond mae'n sicr y bydd ganddo ddiddordeb amlwg yn y defnydd o gyllid Ewropeaidd sylweddol a'r canlyniadau neu'r diffyg canlyniadau. Ni wyddys eto beth fydd rôl Pwyllgorau Rhanbarth y Cynulliad, ond hwyrach y gallant ddod yn rhan o hyn wrth i'r Cynulliad fwrw at ei waith o ddifrif.

**Y Pwyllgorau Monitro**

32 Mae'n ofynnol i gael Pwyllgor Monitro ar gyfer pob SPD, yn ogystal ag un hefyd, yn ôl pob tebyg, ar gyfer y Rhaglen Weithredol Amcan 3, y Mentrau Cymunedol a'r Rhaglen Datblygu Gweledig. Yn dilyn 1999 dylid mynd ati o ddifri i hybu'r hen farn bod angen i'r Pwyllgorau ganolbwyntio ar fonitro perfformiad a phennu newidiadau y gall fod eu hangen o ran strategaethau.

*Bydd angen ystyried rolau penodol y Cynulliad, ei bwyllgorau a'r amrywiol Bwyllgorau Monitro mewn mwy o fanylder maes o law. Hwyrach y gellid ystyried y posibilrwydd o sicrhau cynrychiolaeth y Cynulliad ar y Pwyllgorau Monitro.*

**Yr Ysgrifenyddiaeth Reoli Genedlaethol**

33. Ar hyn o bryd mae'r Ysgrifenyddiaeth Gronfeydd yn gwmni cyfyngedig trwy warant, gyda Bwrdd sy'n cynnwys cynrychiolwyr ei berchnogion (partneriaid rhanbarthol Cymru).

34. Mae ganddi berthynas hyd braich â'r Swyddfa Gymreig ond eto mae cyswllt hanfodol rhyngddynt, ac mae cyfran o swyddogaethau'r Ysgrifenyddiaeth yn rhwymedigaethau anghyfnewidiadwy ar yr Aelod-Wladwriaeth.

35. Bydd ei swyddogaethau cyfredol megis gwasanaethu anghenion y Pwyllgorau Monitro, darparu systemau rheoli gwybodaeth effeithiol, cyhoeddusrwydd, rheolaeth ariannol, cyngor ar gymhwysedd, prosesu hawliadau am daliadau a chau'r Rhaglenni cyfredol yn parhau yn y dyfodol.

36. O dan y strwythur newydd arfaethedig byddai'r Ysgrifenyddiaeth hefyd yn gyfrifol am:

- asesu a gwerthuso pecynnau sydd am dderbyn cymorth gan y Cronfeydd (efallai y bydd angen defnyddio ymgynghorwyr arbenigol i roi cymorth â rhai gwerthusiadau);
- argymell pecynnau addas i'r Pwyllgorau Monitro perthnasol eu cymeradwyo;
- cymeradwyo projectau unigol oddi mewn i becynnau a gymeradwywyd eisoes nad oes ganddynt bwerau wedi'u datganoli;
- darparu cefnogaeth flaenweithgar i noddwyr i'w helpu i ddatblygu pecynnau a phrojectau o ansawdd uchel. Bydd y swyddogaeth hon fel *animateur* yn arbennig o bwysig os yw'r sector preifat am gymryd rhan effeithiol, a gellid ei gwella drwy ddefnyddio cymorth technegol i adeiladu ar y gallu oddi mewn i'r sectorau i ddefnyddio'r Cronfeydd Strwythurol.

37. Mae profiad wedi dangos bod y rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yn weithredoedd arbenigol sydd yn galw am staff profiadol sydd wedi ymroi 100% i'r tasgau angenrheidiol ar sail barhaus a hir-dymor.

38. Gyda'r newid arfaethedig yn swyddogaethau'r Ysgrifenyddiaeth i agwedd wedi'i chanoli fwy ar bolisi, sy'n fwy cydlynol a blaen-weithgar, bydd gan y Cynulliad rôl amlycach yn rheolaeth y Rhaglenni na sydd gan y Swyddfa Gymreig ar hyn o bryd.

39. Mae'r amodau hyn yn arwain at yr angen i sefydlu Ysgrifenyddiaeth Genedlaethol yn cynnwys staff ymroddedig sy'n amlwg yn atebol ac yn hygyrch i'r Cynulliad, y Pwyllgorau Monitro a'r holl bartneriaid.

40. Bydd angen sefydlu "Bwrdd yr Ysgrifenyddiaeth" sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Bwyllgorau Monitro Cymru i gadw gorolwg ar rôl yr Ysgrifenyddiaeth.

> *Efallai na fydd statws presennol "cwmni cyfyngedig trwy warant" yr Ysgrifenyddiaeth yn briodol bellach er mwyn cyflawni anghenion perchnogaeth a rheolaeth, a dylid rhoi ystyriaeth i'r statws mwyaf priodol ar gyfer y dyfodol.*

41 Mae llwyddiant neu fethiant unrhyw system reoli yn dibynnu ar ansawdd y staff ac ar adnoddau digonol, ac yn ystod y ddwy flynedd diwethaf mae WEPE Cyf. wedi adeiladu corff o brofiad ac arbenigedd, ynghyd â pheth wmbreth o systemau rheoli gwybodaeth.

42. Wrth i'r gyfundrefn newydd gael ei sefydlu, y nodwedd allweddol yw y bydd yn cael ei rhoi ar waith o'r diwrnod cyntaf un, a hynny am y gost leiaf bosibl. Felly mae'n hanfodol defnyddio'r sgiliau a'r profiad sydd eisoes yn bodoli yn effeithiol os yw rheolaeth y Cronfeydd i ddechrau'n brydlon.

*Bydd angen i’r Cynulliad ystyried ariannu’r trefniadau rheoli newydd yn gynnar, gan ei bod yn annhebygol y bydd y cymysgedd presennol o gymorth technegol a ffioedd noddwyr ar gael ar ôl 1999.*

**Gwerthuso a Monitro**

43. Dylid rhoi ystyriaeth i sefydlu Uned lled-annibynnol oddi mewn i’r Ysgrifenyddiaeth i fod yn gyfrifol am fonitro, gwerthuso a pharatoi adroddiadau blynyddol.

**Natur y Cymorth Ariannol**

44. Er mai cymorth grant yw’r ffynhonnell amlwg o gymorth, mae offerynnau ariannol eraill y gellid eu hystyried, ee. cynorthwyon gweithredu, cronfeydd benthyciadau, cronfeydd wedi’u cyfatebu ymlaen llaw (mae’n ymddangos ei bod yn werth ystyried y fenter Cronfa Allweddol), etc ac mae’r dogfennau ar ffurf pecynnau yn darparu cyfleodd i ddatblygu’r rhain.

**Casgliadau**

45. Nid yw’r symudiad oddi wrth y broses gynnig gystadleuol at ddull pecyn strategol yn syml o bell ffordd, ond fe allai gynnig ffordd effeithiol o wneud y defnydd mwyaf posibl o’r Cronfeydd Strwythurol sylweddol ledled Cymru.

46. Mae’r papur hwn yn cynnig agwedd sy’n hanfodol wahanol ac mae’n codi nifer o gwestiynau. Nid oes amheuaeth y bydd cryn anhawster yngln â’r manylion, ond os gellir cytuno ar yr egwyddorion bras gellir bwrw ymlaen â gwaith pellach tra bo ymgynghoriad cyhoeddus yn mynd yn ei flaen. Erbyn i’r dogfennau gael eu diwygio a’u cyflwyno i’r Cynulliad, bydd rhaid i’r system reoli arfaethedig fod yn gadarnach a dylai’r camau cyntaf fod yn barod i’w gweithredu.

**TASGLU YSGRIFENYDDIAETH EWROP**